



# Beth i'w ddisgwyl gan eich practis meddyg teulu?



Mae meddygon teulu yn gcontractwyr annibynnol ac felly gallant ddewis gweithredu'n wahanol. Ar draws Cymru, bydd amryw o wahanol ddewisiadau ar gael i chi.



## Cyswllt cychwynnol

Cysylltwch â'ch practis meddyg teulu drwy wasanaeth digidol eich meddyg, drwy raglenni ar-lein (fel MyHealthOnline, E-Consult) neu dros y ffôn.

Bydd derbynnydd yn cofnodi eich cais ac yn sicrhau eich bod yn cael eich trin ar yr adeg gywir, yn y lle cywir a gan y gweithiwr proffesiynol cywir.



## Brysbennu

Bydd cyfeiriwr y GIG yn gofyn cwestiynau ichi i sicrhau y gall y gweithiwr proffesiynol cywir o'r GIG ymdrin â'ch ymholiad. Gall fod yn feddyg teulu, fferylllydd, nyrs practis, ffisiotherapydd, therapydd galwedigaethol, optometrydd, deintydd, pediatrydd, ymwelydd iechyd neu weithiwr gofal cymdeithasol.



## Ymgynghoriad clinigol gyda'r clinigwr mwyaf priodol

### Apwyntiad ffôn/Fideo

Gellir gwneud apwyntiad ffôn neu fideo gyda'r gweithiwr proffesiynol mwyaf priodol. Bydd penderfyniad ar y cyd yn helpu i benderfynu a yw'n bosibl ymdrin â'r mater o bell neu a oes angen apwyntiad wyneb yn wyneb.

### Apwyntiad Wyneb yn Wyneb

Os yw apwyntiad wyneb yn wyneb yn angenrheidiol yn glinigol, bydd y practis meddyg teulu yn gwneud trefniadau ichi fod yn bresennol.

Cyflwyno eich cais / anghenion

Derbyn penderfyniad clir

Apwyntiad dros y ffôn

Neu

Apwyntiad fideo

Neu

Apwyntiad wyneb yn wyneb

Neu

Cyfeirio at y gwasanaeth mwyaf priodol

Os ydych chi'n cael poenau difrifol yn y frest, yn llewygu, yn cael anawsterau anadlu difrifol, yn profi gwendid ar un ochr y corff neu leferydd aneglur neu waedu difrifol, peidiwch â chysylltu â'ch practis meddyg teulu. **Ffoniwch 999 yn syth.**

HELPWCH NI  
I'CH HELPU CHI